

Llywodraeth Cymru

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## RHAN 11: Y RHAI YN YR YSTAD DDIOGEL



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Y dull newydd

- Bydd y trefniadau ‘gofal a chymorth’ newydd o dan y Ddeddf yn canolbwyntio ar y canlynol:
  - ‘pobl’ gan gynnwys plant a'u teuluoedd, oedolion a gofalwyr
  - diwallu anghenion am ofal a chymorth person i sicrhau'r llesiant mwyaf posibl iddo ac annog annibyniaeth y dinesydd
  - cynyddu'r swm, ystod a defnydd o wasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned i sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl i ddinasyddion a galluogi mwy o hunanreolaeth o'u canlyniadau llesiant

# Y dull newydd

Dyma'r elfennau allweddol rydym yn eu meithrin:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy
- Aseu
- Meini Prawf Cymhwysra
- Cynlluniau Gofal a Chymorth, ac Adolygu
- Hygludedd Gofal a Chymorth

Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i'r rhai yn yr ystad ddiogel.

# Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei ddarparu i garcharorion

O fis Ebrill 2016, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth:

- Oedolion yn yr ystad ddiogel yng Nghymru;
- Plant o Gymru sydd yn yr ystad ddiogel boed hynny yng Nghymru neu Loegr;
- rhai categorïau o blant o Loegr a osodir yn yr ystad ddiogel yng Nghymru

# Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei ddarparu i garcharorion

## Oedolion

- Mae'r awdurdod lleol yng Nghymru y mae'r carchar yn seiliedig ynddo yn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth y carcharorion, pa un a ydynt o Gymru, Lloegr neu genedligrwydd arall.
- Bydd anghenion oedolion o Gymru sydd mewn carchar yn Lloegr yn cael eu diwallu o dan Ddeddf Gofal 2014, a'r awdurdod lleol lle y'u cedwir fydd yn gyfrifol amdanynt.

# Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei ddarparu i garcharorion

## **Plant a phobl ifanc**

- Awdurdod lleol 'cartref' y plentyn – lle yr ystyrir eu bod yn preswyllo ynddo yn arferol cyn bod yn y ddalfa – fydd yn gyfrifol am blant o Gymru yn yr ystad ddiogel, boed yng Nghymru neu Loegr.
- Bydd yr awdurdod lleol yng Nghymru lle cedwir plant o Loegr yn yr ystad ddiogel yng Nghymru yn gyfrifol am rai categorïau o blant o Loegr.

# Yr hyn sy'n cael ei ddatgymhwysio

Mae'r Ddeddf wedi ei llunio ar sail gynhwysol ac eithrio'r ffaith na all oedolion a phlant yn y ddalfa wneud y canlynol:

–bod yn ofalwyr;

–cael taliadau uniongyrchol;

–mynegi eu bod yn ffafrio llety pan fyddant yn y ddalfa ac eithrio at ddibenion cynllunio ar gyfer eu rhyddhau; a

–cael hawl i'w heiddo gael ei warchod pan fyddant i ffwrdd o gartref.

**Mae POB UN un o ddarpariaethau eraill y Ddeddf yn berthnasol gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a gwasanaethau ataliol a llesiant.**

# Cod Ymarfer

Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 11 yn nodi:

- sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion, plant a phobl ifanc pan fyddant yn y ddalfa;
- sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynorthwyo carcharorion i gael y gofal a'r cymorth y gall fod eu hangen arnynt pan fyddant yn cael eu hailsefydlu yn y gymuned;
- sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda rhanddeiliaid eraill i gyflawni'r trefniadau gofal a chymorth hyn.



# Cod Ymarfer

Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Dod o hyd i ffyrdd o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a gwasanaethau ataliol yn yr ystad ddiogel;
- Dod o hyd i ffyrdd o gynnal yr asesiadau yn yr ystad ddiogel a sut i gynnal y rhain yn gymesur;
- Nodi sut i weithredu hygludedd a threfniadau trawsffiniol;
- Bod yn glir am y staff sy'n gyfrifol a pharatoi cynllun hyfforddi i ystyried y goblygiadau i'r gweithlu.

# Rhan 6 – plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

- Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn nodi darpariaethau ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant sy'n cael eu lletya' a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Mae adran 97 yn estyn y dyletswyddau o ran awdurdodau lleol yn gyfrifol am ymweld â'r holl blant sydd yn y carchar.
- Pan fydd plant yn yr ystad ddiogel NI FYDD ganddynt hawl i'r darpariaethau i'r rhai sy'n gadael gofal ond rhaid ailddatgan y rhain pan fyddant yn cael eu rhyddhau.
- Bydd rheoliadau a chod ymarfer ar gyfer Rhan 6 yn cael eu cyflwyno yn yr ail gyfres. Bydd ymgynghori ar yr elfennau hyn yn dilyn yn 2015.